Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

**YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MON**
**ISLE OF ANGLESEY CHARITABLE TRUST**

9 Rhagfyr/December, 2015

At : Aelodau Cyngor Sir Ynys Môn fel ymddiriedolwr
Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn

Annwyl Aelod,

**CYFARFOD O'R YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN**

Gofynnir i chwi fod yn bresennol mewn cyfarfod o'r Ymddiriedolaeth Elusenol Ynys Môn ar Dydd Mawrth, 15 Rhagfyr 2015 yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni am 10.00 o'r gloch y bore i ystyried y materion a nodir yn y rhaglen atodol.

Yr eiddoch yn gywir,

**YSGRIFENNYDD**

To : Members of the Isle of Anglesey County Council as Trustee
of the Isle of Anglesey Charitable Trust

Dear Member,

**MEETING OF THE ISLE OF ANGLESEY CHRITABLE TRUST**

Your attendance is requested at a meeting of the Isle of Anglesey Charitable Trust on Tuesday, 15 December, 2015 at the Council Chamber, Council Offices, Llangefni at 10.00 a.m., to consider the matters noted in the attached agenda.

Yours sincerely,

**SECRETARY**

**Ysgrifennydd/Secretary :** Dr. Gwynne Jones
**Swyddfa'r Sir/County Offices,**
**Llangefni, Ynys Môn. LL77 7TW. Tel: (01248) 750057**

**R H A G L E N**

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

2 **COFNODION** (Tudalennau 1 - 4)

Cyflwyno, i'w cadarnhau, gofnodion y cyfarfod arbennig o'r Ymddiriedolaeth Elusennol a gafwyd ar 22 Medi, 2015.

3 **ADRODDIADAU O IS-BWYLLGORAU'R YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL** (Tudalennau 5 - 12)

- **Pwyllgor Grantiau Cyffredinol**

  Cyflwyno, i'w cadarnhau a'u mabwysiadu lle bo angen, gofnodion y cyfarfod a gafwyd ar 8 Gorffennaf, 2015.

- **Pwyllgor Buddsoddi a Chontractau**

  Cyflwyno, i'w cadarnhau a'u mabwysiadu lle bo angen, gofnodion y cyfarfod a gafwyd ar 26 Tachwedd, 2015.

  **YN CODI**

  **Rheoli Buddsoddiadau**

  **Argymell i'r Ymddiriedolaeth Elusennol lawn bod y £3m o werthiant Tir Rhosgoch yn cael ei roi gyda phortffolio presennol yr Ymddiriedolaeth Elusennol.**

4 **DIWEDDARIAD AR GRANTIAU 2015/16** (Tudalennau 13 - 16)

Cyflwyno adroddiad gan y Trysorydd mewn perthynas â'r uchod.

5 **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

Ystyried mabwysiadu'r isod:-

"Dan Adran 100 (A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau a ganlyn, oherwydd y posibilrwydd y caiff gwybodaeth eithriedig ei rhyddhau fel y diffinnir hi yn Atodlen 12A (Paragraffau 14 a 16) y Ddeddf."

6 **LLYWODRAETHIANT A GWEINYDDIAETH YR YMDDIRIEDOLAETH YN Y DYFODOL** (Tudalennau 17 - 22)

Cyflwyno adroddiad gan Ysgrifennydd yr Ymddiriedolaeth mewn perthynas â'r uchod.

7 **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

Ystyried mabwysiadu'r isod:-

"Dan Adran 100 (A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r

cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau a ganlyn, oherwydd y posibilrwydd y caiff gwybodaeth eithriedig ei rhyddhau fel y diffinnir hi yn Atodlen 12A (Paragraff 16) y Ddeddf."

## 8 **CYFRANIAD POSIB I'R EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YN YNYS MÔN YN 2017**

(Tudalennau 23 - 24)

Cyflwyno adroddiad gan Ysgrifennydd yr Ymddiriedolaeth mewn perthynas â'r uchod.

This page is intentionally left blank

# Pwyllgor Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Medi 2015

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Victor Hughes (Cadeirydd)<br>T Ll Hughes (Is-Gadeirydd)<br><br>R Dew, Jim Evans, John Griffith, K P Hughes, D R Hughes, Llinos Medi Huws, H E Jones, A M Jones, G O Jones, Richard Owain Jones, R. Meirion Jones, Jeffrey M. Evans, Alun W Mummery, Dylan Rees, J A Roberts, P S Rogers, Dafydd Rhys Thomas ac Ieuan Williams |
| **WRTH LAW** | Ysgrifennydd,<br>Trysorydd.<br><br>**Swyddogion Cyngor Sir Ynys Môn (y cyfeirir atynt yma yn ôl teitlau eu swyddi gyda CSYM)**<br><br>Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol (RJ),<br>Prif Swyddog Prisio (TDE),<br>Rheolydd Gwasanaethau Cyfrifeg (BHO),<br>Swyddog Caffael (SR),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | W T Hughes, Vaughan Hughes, Carwyn Jones, Raymond Jones, R G Parry OBE ac Alwyn Rowlands |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Neb |

---

### 1 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni chafwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

### 2 COFNODION

Cadarnhawyd fel rhai cywir, gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Gorffennaf 2015.

### 3 BWRIAD I AMRYWIO GWEITHRED YR YMDDIRIEDOLAETH

Cyflwynwyd – adroddiad yr Ysgrifennydd mewn perthynas â’r bwriad i amrywio Gweithred yr Ymddiriedolaeth.

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol y codwyd mater ynghylch a fyddai modd i’r Ymddiriedolwr weithredu Gweithred Amrywio i ddiwygio Gweithred yr Ymddiriedolaeth dyddiedig 5 Mehefin 1990 er mwyn tynnu allan y cyfeiriadau at hen Fwrdeistref Ynys Môn yn y Dibenion Elusennol a’u disodli gyda chyfeiriadau at Ynys Môn gan gynnwys Ynys Gybi (yr Ynys). Mae ardal yr hen Fwrdeistref (y Fwrdeistref) yn rhannu'r un ffiniau ag ardal ddaearyddol yr Ynys. Cafwyd Cyngor Cyfreithiol gan Weightmans LLP a chan Francesca Quint, Bargyfreithiwr yn Siambrau Radcliffe. Roedd y Cyngor Cyfreithiol wedi ei gynnwys yn yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD :-**

- **Amrywio Gweithred yr Ymddiriedolaeth trwy gynnwys y geiriau Ynys Môn (gan gynnwys Ynys Gybi) yn lle’r geiriau ‘y Fwrdeistref’ pryd bynnag y maent yn**

digwydd yn Atodlen B Gweithred yr Ymddiriedolaeth dyddiedig 5 Mehefin 1990.

- **Awdurdodi a chyfarwyddo'r Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) a'r Swyddog Monitro i weithredu Gweithred Amrywio yn enw ac ar ran yr Ymddiriedolwr ar y ffurflen sydd ynghlwm.**

- **Cadw'r Weithred Amrywio wreiddiol gyda chofnodion yr Ymddiriedolwyr mewn perthynas â'r Ymddiriedolaeth ac anfon copi ardystiedig o'r Weithred Amrywio a weithredwyd yn brydlon i'r Comisiwn Elusennau ar gyfer Lloegr a Chymru.**

**EITEM FRYS GYDA CHANIATÂD CADEIRYDD YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN**

Dywedodd yr Ysgrifennydd ei fod yn dymuno codi mater ynghylch gweinyddu'r Ymddiriedolaeth Elusennol yn y dyfodol ynghyd â'r posibilrwydd o benodi Ymddiriedolwyr o'r tu allan i aelodau'r Cyngor. Cytunodd y Cadeirydd i restru'r mater fel un brys am y rheswm y soniwyd amdano gan y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol (sef y dylid ystyried y mater yn awr oherwydd os cytunir ar unrhyw newidiadau, byddai angen eu gweithredu erbyn cychwyn y flwyddyn ariannol nesaf). Awgrymwyd y dylid sefydlu Panel gydag aelodau o blith aelodau'r Ymddiriedolaeth Elusennol a Swyddogion a'u bod yn adrodd yn ôl i gyfarfod diweddarach gyda'u canfyddiadau.

Yn dilyn trafodaethau, **PENDERFYNWYD sefydlu Panel o 6 Aelod o'r Ymddiriedolaeth Elusennol i drafod gweinyddiaeth yr Ymddiriedolaeth yn y dyfodol sef:-**

**Cadeirydd ac Is-Gadeirydd Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn;**
**Mr. Aled Morris Jones, R. Meirion Jones, Richard O. Jones,**
**Ieuan Williams.**

## 4 YR YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL A RHEOLAU GWEITHDREFN Y CYNGOR

Cyflwynwyd – adroddiad gan yr Ysgrifennydd ynghylch yr uchod.

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol bod yr Ymddiriedolaeth Elusennol, yn ei chyfarfod ar 31 Gorffennaf 1990, wedi penderfynu y dylai Rheolau Sefydlog a Rheolau Trafodaeth y Cyngor Bwrdeistref fod yn berthnasol i'r Ymddiriedolaeth fel oedd yn briodol. Ar adeg ad-drefnu llywodraeth leol ar 1 Ebrill 1996, olynwyd y Cyngor Bwrdeistref fel awdurdod lleol gan Gyngor Sir Ynys Môn ('y Cyngor Sir'). Y Cyngor Sir wedyn oedd unig ymddiriedolwr yr Ymddiriedolaeth. Yn ei gyfarfod ar 2 Ebrill 1996, penderfynodd yr Ymddiriedolaeth Elusennol fabwysiadu Rheolau Sefydlog y Cyngor Sir fel yr oeddent yn briodol i gynnal busnes yr Ymddiriedolaeth. Ers 1996, mae'r Cyngor Sir wedi mabwysiadu'r Cyfansoddiad yn ei ffurf gyfredol sy'n cynnwys y Rheolau Gweithdrefn a Rheolau Mynediad i Wybodaeth fel gweithdrefnau sy'n cyfateb i reolau sefydlog ar gyfer cynnal busnes yng nghyfarfodydd y Cyngor Sir a'i Bwyllgorau. Fodd bynnag, yn dechnegol, mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i weithredu dan benderfyniad 1996 tra bo'r rheolau gweithdrefn wedi newid ers hynny.

Cododd yr Aelod y mater bod rhaid i Aelodau siarad i sefyll yng nghyfarfodydd y Cyngor Sir yn unol â 4.1.24.1 yn y Cyfansoddiad. Gofynnodd a fyddai'r Ymddiriedolaeth Elusennol hefyd yn mabwysiadu hynny.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Cyhyd ag y bydd y Cyngor Sir yn parhau i fod yr unig Ymddiriedolwr, bod pob cyfarfod o'r Ymddiriedolaeth a'i Bwyllgorau yn cael eu cynnal yn unol â Rheolau Gweithdrefn y Cyngor Sir sydd mewn grym ar y pryd ac eithrio lle byddai hynny'n anghyson gyda darpariaethau Gweithred yr Ymddiriedolaeth fel y cafodd ei diwygio.**

- **Na fydd yr angen i 'sefyll i siarad' o fewn y Cyfansoddiad yn 4.1.24.1 yn cael ei fabwysiadu ar gyfer trafodaethau Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn.**

*(Roedd Mr. Aled M. Jones yn dymuno iddo gael ei gofnodi ei fod wedi pleidleisio yn erbyn y penderfyniad i beidio â sefyll i siarad yng nghyfarfodydd Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn).*

5 **DELIO GYDA CHEISIADAU SYLWEDDOL A DYRANNU CYLLID I'R PWYLLGOR ADFYWIO**

Cyflwynwyd – adroddiad y Trysorydd mewn perthynas â'r weithdrefn ar gyfer delio gyda cheisiadau sylweddol a dyrannu cyllid i'r Pwyllgor Adfywio.

Dywedodd y Trysorydd, bod yr Ymddiriedolaeth, bob blwyddyn ym mis Ionawr, yn derbyn adroddiad gan y Trysorydd yn nodi cyllideb arfaethedig ar gyfer y flwyddyn ariannol ddilynol. Roedd yr adroddiad hwn yn nodi rhagamcan o'r incwm buddsoddi y mae'r Ymddiriedolaeth yn ei ddisgwyl ynghyd â ffigwr ar gyfer ffioedd rheoli. Yn ogystal, roedd yn nodi cyllideb sydd wedi ei dirprwyo i'r Pwyllgor Grantiau fel y gall ddyrannu grantiau. Ychwanegir at y drefn hon o gyllideb 2016/17 ymlaen drwy wneud argymhelliad a gosod cyllideb debyg wedi ei dirprwyo i'r Pwyllgor Adfywio ar gyfer grantiau mwy. Bydd y cyfanswm a fydd ar gael i'r ddau bwyllgor yn cael ei benderfynu ar ôl cymryd i ystyriaeth yr angen i gynnal gwerth parhaus buddsoddiadau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Bydd y Trysorydd yn gwneud trefniadau i sicrhau fod proses cyflwyno ceisiadau gadarn yn bodoli ar gyfer ceisiadau am grantiau mwy sy'n cydymffurfio gydag arfer dda o ran rheoliadau mewnol. Bydd y broses yn amodol ar y darpariaethau a nodir yn yr adroddiad.

Rhoes y Pwyllgor sylw i'r adroddiad gan godi'r materion a ganlyn:-

- Mynegwyd barn gan Aelod o'r Ymddiriedolaeth na ddylai'r Ymddiriedolaeth Elusennol fod yn cyllido Oriel Ynys Môn; gofynnodd am gael tynnu allan rhif (viii) y canllawiau meini prawf yn yr adroddiad sy'n cyfeirio at Oriel Ynys Môn. Dywedodd y Trysorydd fod yr Ymddiriedolaeth Elusennol wedi cyllido Oriel Ynys Môn yn hanesyddol a'i fod felly wedi ei gynnwys yn y canllawiau meini prawf. Nododd mai mater i'r Pwyllgor Adfywio a'r Ymddiriedolaeth lawn fyddai trafod cyllido Oriel Ynys Môn yn y dyfodol.
- Y dylid cynnwys 'diwylliant' a 'gwarchod yr amgylchedd' yn rhif (iv) y canllawiau meini prawf yn yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD bod yr Ymddiriedolaeth yn cytuno:-**

- **Ar y dull o benderfynu ar gyllideb ar gyfer y Pwyllgor Adfywio bob blwyddyn;**
- **Y broses a'r meini prawf sydd wedi eu nodi yn yr adroddiad.**
- **Bod diwylliant a gwarchod yr amgylchedd yn cael eu cynnwys yn rhif (iv) canllawiau meini prawf yr adroddiad.**

*(Roedd y Mri. Jeff M. Evans a Dafydd R. Thomas yn dymuno cofnodi eu bod wedi pleidleisio yn erbyn cynnwys cyllido Oriel Ynys Môn yn rhif (viii) y canllawiau meini prawf yn yr adroddiad.)*

6 **EITEM A DRAFODWYD YN BREIFAT**

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r canlynol:-**

**"Dan Adran 100 (A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, gyrrwyd y wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn, oherwydd y tebygrwydd y câi gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwna Atodlen 12A y Ddeddf eithriad ohoni fel y diffinnir y wybodaeth yn y Ddeddf ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm"**

7 **Y DIWEDDARAF AR SAFLE RHOSGOCH**

Rhoes yr Ysgrifennydd a'r Prif Swyddog Prisio adroddiad o ddiweddariad ynghylch Safle Rhosgoch.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

**Mr. T. Victor Hughes**
**Cadeirydd**

This page is intentionally left blank

# Pwyllgor Grantiau Cyffredinol

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Gorffennaf 2015

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Mr. Jeffrey M.Evans (Cadeirydd)<br>Mr. Jim Evans (Is-gadeirydd)<br><br>Mr. R Dew, Mr. Victor Hughes, Mrs. Llinos Medi Huws, Mr. Dylan Rees a Mr. P S Rogers |
| **WRTH LAW:** | Ysgrifennydd,<br>Trysorydd.<br><br>**Swyddogion o Gyngor Sir Ynys Môn (cyfeirir atynt o hyn ymlaen yn ôl teitlau eu swyddi yn CSYM)**<br><br>Rheolwr Gwasanaethau Cyfrifeg (BHO),<br>Uwch Gyfrifydd (Cynllunio Strategol a Thrawsnewid) (BD),<br>Cynorthwy-ydd Gweinyddol (CS),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Mr. A M Jones – Is-gadeirydd Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn<br><br>Mr. Richard Owain Jones |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Dim |

---

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Fe wnaeth Mr. Dylan Rees ddatgan diddordeb yng nghyswllt cais 09 – Ymddiriedolaeth Gwiwerod Coch Cymru gan ei fod yn 'Gyfaill i Gymdeithas Gwiwerod Coch Ynys Môn'. Ni wnaeth y Cynghorydd Rees gymryd rhan yn y drafodaeth ar y cais.

Fe wnaeth y Rheolwr Gwasanaethau Cyfrifeg ddatgan diddordeb yng nghyswllt cais 46 – Clwb Plant Bach, Llangefni ac ni wnaeth gymryd rhan yn y drafodaeth ar y cais.

**2 COFNODION**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Gorffennaf 2014.

**3 GRANTIAU BLYNYDDOL 2015/16**

Cyflwynwyd – adroddiad ar ran y Trysorydd yng nghyswllt yr uchod.

Adroddwyd mai pwrpas yr adroddiad oedd ystyried ceisiadau sy'n berthnasol i Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn. Mae Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn yn dyrannu arian yn flynyddol i brosiectau yn y categorïau a ganlyn:-

- Cyfleusterau Cymunedol a Chwaraeon (prosiectau cyfalaf bach)
- Grantiau eraill (grantiau bychain unwaith ac am byth yn bennaf)

Yng nghyfarfod yr Ymddiriedolaeth Elusennol lawn a gynhaliwyd ar 20 Ionawr 2015, penderfynwyd dirprwyo cyllideb o £125,000 i'r Pwyllgor hwn ar gyfer y rhaglen grantiau blynyddol. Penderfynodd

yr Ymddiriedolaeth lawn hefyd y dylid cynyddu cyfyngiad y grant yng nghyswllt Grantiau Cyfleusterau Cymunedol a Chwaraeon o £6,000 i £8,000. Mae cyfyngiad ar gyfer grantiau bychain yn aros ar £1,000 ac mae'r terfyn cyllido uchaf i bob grant yn aros ar 80%. Fodd bynnag, yn ei gyfarfod ar 21 Ebrill 2015, penderfynodd yr Ymddiriedolaeth lawn roi hyblygrwydd i'r Pwyllgor hwn gynyddu'r terfyn uchaf a chyfradd y ganran gefnogaeth yn wyneb y ceisiadau a dderbynnir.

Mae'r swyddogion perthnasol o Gyngor Sir Ynys Môn wedi ystyried a blaenoriaethu'r ceisiadau a dderbyniwyd cyhyd â phosib ac yn gyson â phenderfyniadau a meini prawf yr Ymddiriedolaeth a sefydlwyd yn y blynyddoedd blaenorol. Mae argymhellion y swyddogion i'w gweld yn Atodiadau A a B sydd ynghlwm yn yr adroddiad. Caiff y ceisiadau hyn eu hystyried yn unol â'r meini prawf ar gyfer dyrannu grantiau o Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn, ac roedd copi o hwn ynghlwm fel Atodiad C i'r adroddiad.

**Mae'r ceisiadau a dderbyniwyd a'r symiau a argymhellwyd ar gyfer Cyfleusterau Cymunedol a Chwaraeon – Grantiau Cyfalaf 2015/16 fel a ganlyn :-**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **01** | Clwb Pêl-droed Llangoed | Adnewyddu ystafelloedd newid | **£5,469**<br>*(Cymeradwyo'r grant uchod, mewn egwyddor, yn amodol ar dderbyn cyfrifon wedi eu harchwilio ac ar foddhad Swyddogion y Cyngor ynghylch sefyllfa ariannol y Clwb o fewn cyfnod o 2 fis)* |
| **02** | Canolfan Gymuned David Hughes | Uwchraddio cegin a'r ystafell gyfagos | 70% o'r gost cymwys, hyd at **£2,715**<br><br>*(Cymeradwyo'r grant uchod, mewn egwyddor, yn amodol ar dderbyn amcanbrisiau pellach o fewn cyfnod o 2 fis)* |
| **04** | Cyngor Plwyf Llangristiolus a Cherrigceinwen | Creu Cae Chwarae | **£8,000** |
| **05** | Cyngor Cymuned Llanfairpwllgwyngyll | Gwaith paratoi angenrheidiol ar gyfer neuadd newydd | **DIM**<br><br>*(Mae'r arian a geisir ar gyfer gwaith paratoi ac mae risg na fyddai'r prosiect yn mynd yn ei flaen fel y disgwylir).* |
| **06** | Canolfan Goffa Gymunedol Porthaethwy | Adnewyddu'r bwyler gwres | **£2,968** |
| **07** | Ffederasiwn Pysgotwyr Môr Cymru | Cefnogaeth i berson ifanc talentog lleol gyda chostau cystadlu ym Mhencampwriaethau'r DU | **DIM**<br><br>*(Cynhaliwyd y gystadleuaeth cyn y cyfarfod hwn, felly nid yw'n gymwys)* |
| **08** | Clwb Pêl-droed Pentraeth | Darparu draen cerrig i atal dŵr rhag mynd ar y cae | **DIM** |
| **10** | CRhA Ysgol Esceifiog | Prynu popty i'w roi ar ben bwrdd ac offer i roi profiad i ddisgyblion CA1 a CA2 ddysgu am fwyd, bwyta'n iach a pharatoi bwyd. | **DIM**<br><br>*(Nid yw'r Ymddiriedolaeth yn cefnogi ysgolion, felly nid yw'r cais yn gymwys)* |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **12** | Pwyllgor Cae Chwarae Bodffordd | Atgyweirio arwyneb llawr diogelwch, prynu seddi a bin sbwriel | 70% o'r gost gymwys hyd at **£1,428**<br><br>*(Dyfarnwyd y grant er mai dim ond un amcan bris a dderbyniwyd oherwydd mai'r cwmni sy'n medru gwneud y gwaith atgyweirio yw'r unig gwmni o fewn pellter rhesymol).* |
| **13** | Partneriaeth Moelfre | Codi plac coffa i gofio am 29 o arwyr lleol fu ynghlwm ag achub bywydau adeg trychineb y Royal Charter | **£585** |
| **14** | Clwb Pêl-droed Iau Tref Amlwch | Prynu cynwysyddion storio | **£3,150** |
| **19** | Cymdeithas Lenyddol Bro Goronwy | Arian ar gyfer darlithydd, llogi'r ysgol, treuliau'r ysgrifennydd, argraffu a llogi'r capel | **DIM**<br><br>*(Wedi canfod cyllid amgen ar gyfer y cais hwn)* |
| **20** | Cymdeithas Hanes Bro Goronwy | Cymorth ariannol tuag at gost siaradwyr, argraffu, llogi festri'r capel i gynnal cyfarfodydd, costau ysgrifenyddol. | **DIM**<br><br>*Wedi canfod cyllid amgen ar gyfer y cais hwn)* |
| **21** | Clwb Criced Bodedern | Prynu peiriannau torri gwair | **£5,670** |
| **22** | Clwb Rhwyfo Biwmares | Prynu ail gwch hir Celtaidd | **£7,835** |
| **26** | Amlwch Showstoppers | Prynu offer i'r grŵp allu recordio sioeau er mwyn cynhyrchu DVDs i'w gwerthu ac i ddarparu cofnod gweledol o sioeau ar gyfer hyfforddiant a gwerthuso. | **£2,000** |
| **27** | Clwb Pêl-droed Bro Goronwy | Cwblhau gwaith adnewyddu Portacabin, llawr newydd, 2 ddrws ac 1 ffenest. | **£1,626** |
| **28** | Cyngor Cymuned Y Fali | Troi ystafell yn y pafiliwn ym Mharc Mwd i ystafell gyfarfod/ cymunedol | **£1,813** |
| **29** | Heneiddio'n Dda Ynys Môn | Ariannu bws mini ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth yn y canolfannau Heneiddio'n Dda yn Amlwch ac yn Llangefni. | **£2,500** |
| **30** | Clwb Arlunio Moelfre | Prynu byrddau arddangos symudol | **£1,408** |
| **31** | Canolfan Geidiau Ynys Môn | Gwella cyfleusterau yn yr ystafell gweithgareddau, insiwleiddio'r adeilad a darparu goleuadau a gwresogi mwy effeithlon | **£1,408** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **33** | Cynllun Cyfeirio Ynys Môn | Darparu cefnogaeth un i un i blant oedran cyn ysgol gydag anghenion dysgu ychwanegol | **DIM**<br><br>*(Byddai'r cyllid yn cael ei ddefnyddio i ychwanegu at gyllid craidd a ddarperir gan y Cyngor Sir, felly nid yw'n gymwys).* |
| **34** | Canolfan Gymunedol/ Neuadd yr Eglwys Llanfairpwll | Adnewyddu'r to | **£8,000** |
| **35** | Ffrindiau Parc Rhosybol | Datblygu ardal chwarae | **£8,000**<br>*(Cymeradwyo'r grant uchod, mewn egwyddor, yn amodol ar dderbyn cyfrifon wedi eu harchwilio ac ar foddhad swyddogion y Cyngor ynghylch sefyllfa ariannol y clwb o fewn cyfnod o 2 fis)* |
| **37** | Clwb Criced Porthaethwy | Prynu peiriant torri gwair a gwahanol ddarnau ategol | **£5,161** |
| **38** | Cyngor Tref Biwmares | Gwella cae chwarae Biwmares | **£8,000** |
| **39** | Rhieni a Ffrindiau Clwb Cybi | Prynu offer a darparu gweithgareddau ar gyfer aelodau'r clwb | **DIM**<br><br>*(Diffyg gwybodaeth gyda'r cais)* |
| **41** | Cyngor Cymuned Moelfre | Prynu offer chwarae | **DIM**<br>*(Ddim yn gymwys gan ei fod wedi derbyn grant yn 2014/15)* |
| **42** | Tudur Cyf. (Canolfan Ebeneser) | Darparu mynediad i'r anabl i'r brif fynedfa, a throsi ardal y llawr mezzanine i gyfleuster ychwanegol | **£7,941**<br><br>*(Cymeradwyo'r grant uchod, mewn egwyddor, yn amodol ar dderbyn prawf o berchnogaeth yr adeilad o fewn 2 fis).* |
| **43** | Côr Meibion Y Foel | Cynorthwyo'r Côr i gynhyrchu a marchnata ail CD | **DIM**<br><br>*(Diffyg gwybodaeth gyda'r cais).* |
| **44** | Canolfan Hamdden Biwmares a'r Cylch | Gosod drysau ffrynt alwminiwm gyda gwydr dwbl a weithredir gyda phad gwthio wrth fynedfa'r adeilad. | **DIM**<br><br>*(Ddim yn gymwys, wedi derbyn grant yn 2013/14)* |
| **45** | Grŵp Chwarae Cyn-Ysgol Amlwch | Cyfrannu at gostau rhent y flwyddyn i ddod er mwyn ail-fuddsoddi yn y Cynllun Sicrwydd Ansawdd ac i wella'r man awyr agored. | **DIM**<br><br>*(Nid yw grwpiau cyn-ysgol wedi derbyn cefnogaeth gan yr Ymddiriedolaeth yn* |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | *flaenorol)* |
| **46** | Clwb Plant Bach Llangefni | Byrddau, cadeiriau ac adnoddau dysgu i blant bach | **DIM**<br>*(Diffyg gwybodaeth gyda'r cais)* |
| **47** | Cylch Teulu | Darparu offer ar gyfer plant anabl yn y parc lleol oherwydd nad oes offer addas ar gael ar hyn o bryd. | **DIM**<br>*(Nid yw cost y cynllun wedi cael ei amlinellu. Nid yw'r cynllun wedi dangos faint maent yn gofyn amdano. Hefyd nid yw lleoliad y parc wedi ei nodi. Heb ddarparu digon o wybodaeth i gefnogi).* |
| **49** | Cambrian Deaf Foundation | Gwella datblygiad addysgol, cymdeithasol a chorfforol plant byddar | **DIM**<br>*(Caiff y gwasanaeth ei gynnig trwy Gymru gyfan, oherwydd lefel isel y cyfeiriadau mae Cytundebau Lefel Gwasanaeth tebyg yn Ynys Môn wedi cael eu tynnu'n ôl am ei bod yn anodd profi gwerth am arian).* |
| **50** | Ffrindiau Llangoed | Prynu offer chwarae | **£5,497**<br>*(Cymeradwyo'r grant uchod, mewn egwyddor, yn amodol ar dderbyn cyfrifon wedi eu harchwilio ac ar foddhad swyddogion y Cyngor ynghylch sefyllfa ariannol y clwb o fewn cyfnod o 2 fis).* |

**Mae'r ceisiadau a dderbyniwyd a'r symiau a argymhellir ar gyfer Grantiau Bach yn 2015/16 fel a ganlyn:-**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **03** | Tyddyn Môn | Creu gŵyl gerdd ar gyfer Tyddyn Môn. Annog a hwyluso oedolion gydag Anableddau Dysgu i ymgysylltu â chymryd rhan yn yr ŵyl, ennill sgiliau newydd a datblygu eu bywyd cymdeithasol a'u profiadau. | **£1,000** |
| **09** | Ymddiriedolaeth Gwiwerod Coch Cymru | Cyllido dau gontractwr am 6 mis i:-<br>(a) ddod o hyd i, a chael gwared ar wiwerod llwyd sy'n croesi i Ynys Môn.<br>(b) monitro iechyd gwiwerod coch<br>(c) gweithio gyda busnesau a chymunedau i gynnal twristiaeth werdd mewn perthynas â gwiwerod coch. | **£1,000** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **25** | Gŵyl Fwyd Biwmares | Cynorthwyo gyda chostau sefydlu Gŵyl Fwyd Biwmares 2015 | **£1,000** |
| **32** | Cymdeithas MS | Cyllido dosbarthiadau ymarfer a gynhelir yng Nghanolfan Hamdden Biwmares i bobl gydag MS | **£1,000** |
| **40** | Gŵyl Fwyd Môr Menai | Mynediad am ddim i'r ŵyl fwyd môr | **£1,000** |

Dywedodd Aelodau'r Pwyllgor y dylai sefydliadau sy'n cyflwyno cais am grant i'r Ymddiriedolaeth Elusennol gael cynnig arweiniad a chymorth pellach pan fyddant yn llenwi'r ceisiadau am grant.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r symiau, fel y rhestrir uchod (£x) [ger y symiau a argymhellir], sef y gyfradd grant o 70%.**

**Mr. Jeff M. Evans**
**Cadeirydd**

# Pwyllgor Buddsoddi a Chontractau

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Tachwedd 2015

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cyng. T Ll Hughes, K P Hughes, G.O. Jones, H. Eifion Jones, R Ll Jones, Alun W Mummery |
| **WRTH LAW:** | Trysorydd,<br>Rheolwr Gwasanaethau Cyfrifeg,<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cyng. A M Jones a Dafydd Rhys Thomas |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Mr. T. Victor Hughes – Cadeirydd Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn<br><br>Mr. Rupert Cecil, Cyfarwyddwr, Elusennau – HSBC Global Asset Management (UK) Limited |

---

Cyfeiriodd y Cadeirydd at gyfnod Mr. T.Ll. Hughes yn yr ysbyty yn ddiweddar a nododd ei fod yn falch o'i weld yn bresennol yn y cyfarfod.

**1** **ETHOL CADEIRYDD**

Ailetholwyd Mr. H. Eifion Jones yn Gadeirydd.

**2** **ETHOL IS-GADEIRYDD**

Ailetholwyd G.O. Jones yn Is-gadeirydd.

**3** **DATGAN DIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

**4** **COFNODION**

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Mehefin, 2015 yn gywir.

**Yn codi o'r cofnodion**

**Contract i Wasanaethau Oedolion**

Adroddwyd y bydd adroddiad ar y contract ar gyfer Gwasanaethau Archwilio yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y Pwyllgor hwn.

**5** **RHEOLI BUDDSODDIADAU**

Cyflwynwyd – adroddiad HSBC Global Asset Management (UK) Limited hyd at fis Tachwedd 2015.

Adroddodd y Rheolwr Buddsoddi mai amcan y portffolio yw tyfu'r cyfalaf yn unol â chwyddiant a chreu digon o incwm i gwrdd â gofynion llif arian sy'n cael eu cytuno'n flynyddol gyda'r ymddiriedolwyr. Y strategaeth y cytunwyd arni yw mynd tu hwnt i'r meincnod sefydlog o 1.5% a gytunwyd bob blwyddyn dros gyfnodau treigl o dair blynedd. Roedd gwerth y gronfa ar 17 Tachwedd 2015 yn £16,930,549. Yn y cyfarfod heddiw mae gwerth y gronfa wedi cynyddu i £17,100,000.

Eglurwyd perfformiad y portffolio a'r perfformiad tymor hir yn fanwl i'r Pwyllgor. Nodwyd fod portffolio'r Ymddiriedolaeth wedi symud i 'Gronfa Twf ac Incwm' erbyn hyn ar ôl i'r Ymddiriedolaeth Elusennol lawn gefnogi'r symudiad yn ei gyfarfod ar 13 Gorffennaf 2015.

Cyfeiriodd y Rheolwr Buddsoddi at werthiant Tir Rhosgoch yn ddiweddar am gyfanswm o £3m. Cafwyd trafodaethau ar yr opsiynau sydd ar gael ar gyfer y buddsoddiad. Roedd Aelodau'r Pwyllgor yn ystyried y dylid rhoi'r £3m o werthiant Tir Rhosgoch gyda phortffolio presennol yr Ymddiriedolaeth Elusennol.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Diolch i'r cynrychiolydd o HSBC am fynychu'r cyfarfod, a derbyn yr adroddiad;**
- **Argymell i'r Ymddiriedolaeth Elusennol lawn bod y £3m o werthiant Tir Rhosgoch yn cael ei roi gyda phortffolio presennol yr Ymddiriedolaeth Elusennol.**

**Mr. H. Eifion Jones**
**Cadeirydd**

| YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **YR YMDDIRIEDOLAETH** |
| **DYDDIAD:** | **15 RHAGFYR 2015** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **DIWEDDARIAD AR GRANTIAU 2015/16** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **CYFLWYNO CRYNODEB O'R GRANTIAU A DDYRANNWYD AR GYFER ELENI A'R BLYNYDDOEDD CYNT A RHOI GWYBODAETH AM YR INCWM A GYNHYRCHWYD AR GYFER 2014/15.** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **TRYSORYDD YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN** |
| **GWEITHREDU:** | **PENDERFYNU DERBYN YR ARGYMHELLION A GYFLWYNIR GAN SWYDDOGION YR YMDDIRIEDOLAETH** |

Mae'r adroddiad ganlynol yn crynhoi y sefyllfa ynghlyn ar grantiau a ddyfarnwyd yn 2015/16, yn rhoi gwybodaeth am yr incwm buddsoddi ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am grantiau a ddyfarnwyd yn y blynyddoedd blaenorol.

**1. Crynodeb o Ddyraniadau Grant am 2015/16**

| **Cyfleusterau Cymunedol 2015/16** | **Dyrannwyd (£)** | **Hawliwyd (£)** | **I'w hawlio (£)** |
|---|---|---|---|
| Clwb Pêl-droed Llangoed | 5,469.00 | | 5,469.00 |
| Canolfan Gymunedol David Hughes | 2,715.00 | 2,625.76 | 89.24 |
| Cyngor Cymuned Llangristiolus & Cherrigceinwen | 8,000.00 | | 8,000.00 |
| Canolfan Gymunedol Cofeb Rhyfel Porthaethwy | 2,968.00 | | 2,968.00 |
| Pwyllgor Cae Chwarae Bodffordd | 1,428.00 | | 1,428.00 |
| Partneriaeth Moelfre | 585.00 | | 585.00 |
| Clwb Pêl-droed Ieuenctid Tref Amlwch | 3,150.00 | 2,520.00 | 630.00 |
| Clwb Criced Bodedern | 5,670.00 | | 5,670.00 |
| Clwb Rhwyfo Biwmares | 7,835.00 | 7,835.00 | 0.00 |
| Amlwch Showstoppers | 2,000.00 | 1,501.80 | 498.20 |
| Clwb Pêl-droed Bro Goronwy | 1,626.00 | | 1,626.00 |
| Cyngor Cymuned Y Fali | 1,813.00 | | 1,813.00 |
| Heneiddio'n Dda Ynys Môn | 2,500.00 | | 2,500.00 |
| Clwb Arlunio Moelfre | 1,408.00 | | 1,408.00 |
| Canolfan Geidiaid Ynys Môn | 8,000.00 | | 8,000.00 |
| Neuadd yr Eglwys/Canolfan Gymunedol Llanfair PG | 8,000.00 | | 8,000.00 |
| Ffrindiau Parc Rhosybol | 8,000.00 | | 8,000.00 |
| Clwb Criced Porthaethwy | 5,161.00 | 5,161.00 | 0.00 |
| Cyngor Tref Biwmares | 8,000.00 | | 8,000.00 |
| Tudur Cyf (Canolfan Ebeneser) | 7,941.00 | | 7,941.00 |
| Ffrindiau Llangoed | 5,497.00 | | 5,497.00 |
| | **97,766.00** | **19,643.56** | **78,122.44** |
| **<u>Grantiau Bychan 2015/16</u>** | | | |
| Tyddyn Môn | 1,000.00 | | 1,000.00 |
| Gwiwerod Coch - Ymddiriedolaeth Cymru | 1,000.00 | | 1,000.00 |
| Gŵyl Fwyd Biwmares | 1,000.00 | | 1,000.00 |
| Cymdeithas MS | 1,000.00 | | 1,000.00 |
| Gŵyl Bwyd Môr Menai | 1,000.00 | 1,000.00 | 0.00 |
| | **5,000.00** | **2,000.00** | **3,000.00** |
| **Grantiau Unigol** | | | |
| Oriel Môn | 215,000.00 | | 215,000.00 |
| Menter Môn | 110,000.00 | 55,000.00 | 55,000.00 |
| Cymdeithas Amaethyddiaeth Ynys Môn | 60,000.00 | | 60,000.00 |
| Urdd Gobaith Cymru | 40,000.00 | 2,733.19 | 37,266.81 |
| Clwb Ffermwyr Ieuainc | 30,000.00 | | 30,000.00 |
| Gemau'r Ynysoedd | 40,000.00 | | 40,000.00 |
| Codi Pwysau Caergybi | 60,000.00 | 21,360.90 | 38,639.10 |
| Neuaddau Pentrefi | 80,000.00 | 27,799.70 | 52,200.30 |
| | 635,000.00 | 106,893.79 | 528,106.21 |
| **Cyfanswm** | **737,766.00** | **128,537.35** | **609,228.65** |

Mae'r tabl uchod yn dangos y dyraniad grant am 2015/16. Y cyfanswm a ddyrannwyd ar gyfer y flwyddyn oedd £737,766 ac o'r swm hwnnw, mae £128,537 wedi cael ei hawlio yn barod (17.4% o'r hyn a ddyrannwyd). Nid oes raid i'r mudiadau hawlio eu dyraniad yn 2015/16, oherwydd bod telerau'r grant yn datgan 'Bydd raid cwblhau unrhyw gynllun cyfalaf cyn pen 4 blynedd i flwyddyn dyrannu'r grant. Bydd unrhyw ddyraniad sydd ar ôl heb ei ddefnyddio ar ddiwedd 4 blynedd ariannol yn cael ei drosglwyddo'n ôl i Gronfa'r Ymddiriedolaeth. O'r herwydd, bydd rhai dyraniadau yn llithro i flynyddoedd i ddod.

## 2. Incwm Buddsoddi a Dderbyniwyd

Mae'r adroddiad blynyddol drafft ar gyfer 2014/15 yn dangos Incwm Buddsoddiad o £515,804 o'i gymharu â £499,915 yn 2013/14. Mae'r dyraniadau grant yn 2015/16 o £737,766 yn fwy na'r lefel o Incwm Buddsoddi ac o ganlyniad mae'n debygol i fod yn fwy nag a ragwelir am 2015/16. Fodd bynnag, dylid nodi bod lefel y grantiau a ddyrannwyd yn llai na'r twf a ragwelir yng ngwerth y gronfa. Os bydd yr Ymddiriedolaeth yn penderfynu cynnwys y derbyniadau diweddar o werthu tir yn y portffolio cyffredinol, yna bydd yr enillion buddsoddi yn cynyddu yn ystod chwarter olaf y flwyddyn.

## 3. Grantiau o Flynyddoedd Blaenorol a ddygwyd ymlaen i 2015/16

| Blwyddyn y Dyraniad | Swm a ddygwyd ymlaen i 2015/16 (£) | Swm a Dalwyd yn 2015/16 (£) | Swm sy'n ddyledus yn 2015/16 (£) |
|---|---:|---:|---:|
| 2008/09 | 1,188.89 | - | 1,188.89 |
| 2009/10 | 5,809.00 | - | 5,809.00 |
| 2010/11 | 22,240.30 | - | 22,240.30 |
| 2011/12 | 19,569.58 | 5,188.70 | 14,380.88 |
| 2012/13 | 25,198.45 | 8,860.00 | 16,338.45 |
| 2013/14 | 18,978.43 | 3,633.82 | 15,344.61 |
| 2014/15 | 376,878.71 | 288,971.92 | 87,906.79 |
| **Cyfanswm** | **469,863.36** | **306,654.44** | **163,208.92** |

Mae'r tabl uchod yn crynhoi'r cyfanswm grantiau a ddygwyd ymlaen i 2015/16.

Mae'r tabl yn dangos bod £469,863 o ddyraniadau grant o flynyddoedd blaenorol wedi eu dwyn ymlaen i 2015/16. Hyd yn hyn, mae £306,654 wedi ei dalu, sef 65% o'r cyfanswm a ddygwyd ymlaen. Mae hyn yn gadael balans o £163,208,92. O'r balans hwn, mae £29,238.19 yn ymwneud â grantiau a gafodd eu dyrannu dros 4 blynedd yn ôl ac o'r herwydd heb gael eu hawlio yn unol â thelerau'r grant.

## 4. Argymhellion

**(i)** Bod yr Ymddiriedolaeth yn rhoi cyfarwyddiadau i'r swyddogion ysgrifennu at y sefydliadau unigol nad ydynt wedi hawlio eu dyraniad grant yn ystod y cyfnodau 2008/09 i 2010/11 i'w hysbysu bod y cynnig o grant erbyn hyn wedi cael ei dynnu'n ôl.

**(ii)** Bod yr Ymddiriedolaeth yn nodi fod y lefel gwariant cyfredol yn uwch na'r incwm a gynhyrchir sy'n cael effaith ar falans cyfalaf cyffredinol y buddsoddiadau.

This page is intentionally left blank

Yn rhinwed paragraff(au) 14, 16 Rhan 1 o Atodlen 12A
o Ddeddf Llywordraeth Leol 1972.



Document is Restricted

This page is intentionally left blank

Yn rhinwed paragraff(au) 16 Rhan 1 o Atodlen 12A
o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

This page is intentionally left blank